**Eitem ar yr agenda: 9**

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU |
| **DYDDIAD** | 15 RHAGFYR 2003 |
| **ADRODDIAD GAN:** | Y TRYSORYDD |
| **TESTUN:** | CÔD YMARFER CIPFA AR GYFER RHEOLI'R TRYSORLYS MEWN GWASANAETHAU CYHOEDDUS |

1. CYFLWYNIAD.

1.1 Fel rhan o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Conwy a'r Awdurdod Tân mae'r Trysorydd yn gyfrifol am waith Rheoli'r Trysorlys i'r Awdurdod Tân. Mabwysiadwyd Côd Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Drysoryddol (2002) yn ffurfiol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn Ebrill 2002. Cyn hynny, nid ystyriwyd bod angen i'r Awdurdod Tân fabwysiadu'r côd ar wahân gan y byddai hynny'n dod o dan y ffaith bod Conwy wedi mabwysiadu'r côd fel rhan o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'r Côd Darbodus newydd ar gyfer Arian Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol yn gwneud gofyniad bod rhestr o ddangosyddion darbodus yn cael eu darparu gyda'r datganiad cyllideb. Mae un o'r dangosyddion yn cyfeirio'n benodol fod yr Awdurdod wedi mabwysiadu Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys felly mae bellach yn ofyniad i'r Awdurdod Tân fabwysiadu'r Côd yn ffurfiol.

1.2 Mae Atodiad A yn rhoi amlinelliad o'r Côd Ymarfer ac mae Atodiad B yn rhestru'r Ymarferion Rheoli'r Trysorlys sy'n berthnasol i'r Awdurdod Tân.

2. ARGYMHELLIAD

- mabwysiadu Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus (2002) gan ddod i rym yn ddi-oed;

-mabwysiadu'r pedwar cymal yn adran 3 yn Atodiad A i'w Reoliadau Ariannol;

- mabwysiadu'r tri cymal yn adran 4 yn Atodiad A fel ei Ddatganiad Polisi ar Reolaeth Drysoryddol:

- mabwysiadu'r Ymarferion Rheoli'r Trysorlys sy'n berthnasol i'r Awdurdod Tân fel yr amlinellir yn Atodiad B.

K W FINCH
**Trysorydd**

## 1. DIBEN CÔD YMARFER CIPFA AR REOLI'R TRYSORLYS

**1.1** Cynorthwyo sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus i ddatblygu a chynnal sylfeini cadarn ac amcanion clir ar gyfer eu gweithgareddau rheoli trysorlys, a thrwy hynny, ychwanegu at eu hygrededd yng ngolwg y cyhoedd.

**1.2** Pwysleisio pwysigrwydd pennaf rheolaeth effeithiol dros risg fel sylfaen i reoli trysorlys ym mhob gwasanaeth cyhoeddus.

**1.3** Annog ceisio sicrhau gwerth gorau ym maes rheoli trysorlys, a hybu defnydd rhesymegol, datblygiad a gwerthfawrogiad o fesurau cyflawniad addas ac ymarferol.

**1.4** Galluogi aelodau CIPFA i gyflawni eu cyfrifoldebau proffesiynol a chytundebol i'r sefydliad y maent yn ei wasanaethu.

**1.5** Helpu i hwyluso safoni a chyfundrefnu polisïau ac arferion rheoli trysorlys yn y gwasanaethau cyhoeddus.

**1.6** Bod yn gymorth i rai sydd yn gysylltiedig â rheoli ac adolygu rheolaeth trysorlys yn y gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig y rhai sydd â'r cyfrifoldeb am ei harchwilio.

**1.7** Meithrin dadl barhaus ynglŷn â pherthnasedd a chyfoesedd y trefnau statudol a rheoliadol y mae rheoli trysorlys yn gweithredu oddi tanynt mewn gwahanol rannau o'r gwasanaethau cyhoeddus.

**1.8** Hyrwyddo dealltwriaeth a hyder sefydliadau ariannol a sefydliadau eraill y mae eu busnes yn eu dwyn i gyswllt â gweithgareddau rheoli trysorlys sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL AC ARGYMHELLION ALLWEDDOL

Mae'r côd yn gwneud pedwar argymhelliad allweddol:

**2.1** Dylai sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus sefydlu amcanion, polisïau ac arferion, strategaethau, a threfniadau adrodd ffurfiol a chynhwysfawr ar gyfer rheoli eu gweithgareddau rheoli trysorlys yn effeithiol a'u cadw dan reolaeth effeithiol.

**2.2** Dylai eu polisïau a'u harferion ei gwneud yn glir fod rheoli risg effeithiol, a'i chadw dan reolaeth effeithiol, yn brif amcanion eu gweithgareddau rheoli trysorlys.

**2.3** Dylent gydnabod bod ceisio sicrhau gwerth gorau wrth reoli trysorlys, a defnyddio mesurau cyflawniad addas, yn arfau dilys a phwysig i sefydliadau cyfrifol eu defnyddio i gefnogi eu hamcanion busnes a gwasanaeth; ac y dylai, yng nghyd-destun rheoli risg effeithiol, eu polisïau ac ymarferion rheoli trysorlys adlewyrchu hyn.

**2.4** Er mwyn cyflawni'r uchod, dylai sefydliadau:

- fabwysiadu'r pedwar cymal yn Adran 3;
- mabwysiadu datganiad polisi rheoli trysorlys, fel sy'n cael ei argymell yn Adran 4;
- dilyn yr argymhellion yn Adran 5 ynglŷn â chreu arferion rheoli trysorlys (ARhT).

Barn CIPFA yw mai'r flaenoriaeth drwy'r gwasanaeth cyhoeddus cyfan yw amddiffyn cyfalaf yn hytrach nag uchafu enillion. Nid yw osgoi risg yn briodol nac yn bosibl. Fodd bynnag, rhaid dal y ddysgl yn wastad drwy ymarfer cyfrifoldeb brwd dros arian cyhoeddus.

## 3. Y CYMALAU SYDD I'W MABWYSIADU'N FFURIFOL

Mae CIPFA yn argymell bod pob sefydliad gwasanaeth cyhoeddus yn mabwysiadu'r pedwar cymal canlynol fel rhan o'i reolau sefydlog, ei reoliadau ariannol, neu ddogfennau polisi ffurfiol eraill sydd yn addas ar gyfer ei amgylchiadau.

**3.1** Mae'r sefydliad hwn yn mabwysiadu argymhellion allweddol Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus, fel y maent wedi eu disgrifio yn y Côd.

**3.2** Felly, bydd y sefydliad hwn yn creu ac yn cynnal, fel conglfeini rheoli effeithiol dros drysorlys:

- datganiad polisi rheoli trysorlys sydd yn mynegi polisïau ac amcanion ei weithgareddau rheoli trysorlys;
- arferion rheoli trysorlys (ARhT) addas, sy'n adlewyrchu'r modd y mae'r sefydliad yn ceisio cyflawni'r polisïau a'r amcanion hynny, a'r modd y bydd yn rheoli'r gweithgareddau perthnasol ac yn eu cadw dan reolaeth.

**3.3** Bydd y sefydliad hwn yn derbyn adroddiadau ynglŷn â'i bolisïau, ei arferion a'i weithgareddau rheoli trysorlys, gan gynnwys, o leiaf, strategaeth a chynllun blynyddol cyn dechrau'r flwyddyn dan sylw, ac adroddiad blynyddol ar ôl diwedd y flwyddyn honno, ar y ffurf sydd wedi ei phennu yn ei ARhT.

**3.4** Mae'r sefydliad hwn yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am weithredu a monitro ei bolisïau a'i arferion rheoli trysorlys i'r Panel Gweithredol, ac yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am weithredu a gweinyddu penderfyniadau rheoli trysorlys i'r Trysorydd, a fydd yn gweithredu yn unol â Datganiad Polisi ac ARhT y sefydliad, ac os bydd yn aelod o CIPFA, Safon CIPFA ar Ymarfer Proffesiynol ar Reoli Trysorlys.

## 4. Y DATGANIAD POLISI AR REOLI TRYSORLYS

Mae CIPFA yn argymell y dylai datganiad polisi'r sefydliad ynglŷn â rheoli trysorlys ddefnyddio'r ffurf ganlynol ar eiriau i ddiffinio polisïau ac amcanion ei weithgareddau rheoli trysorlys:

**4.1** Mae'r sefydliad hwn yn diffinio ei weithgareddau rheoli trysorlys fel, "Rheoli llifau arian y sefydliad, ei fancio a'i drafodion yn y farchnad arian a'r farchnad cyfalaf: rheoli'n effeithiol y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny: a mynd ar drywydd y cyflawniad gorau posibl mewn perthynas â'r risgiau hynny."

**4.2** Mae'r sefydliad hwn o'r farn mai canfod, monitro a rheoli risg yw'r prif feini prawf ar gyfer mesur effeithiolrwydd ei weithgareddau rheoli trysorlys. Yn unol â hynny bydd dadansoddiadau ac adroddiadau ar weithgareddau rheoli trysorlys yn canolbwyntio ar eu goblygiadau o ran risg i'r sefydliad.

**4.3** Mae'r sefydliad hwn yn cydnabod y bydd rheoli trysorlys mewn modd effeithiol yn ategu ei nod o gyflawni ei amcanion o ran busnes a gwasanaeth. Y mae ganddo ymrwymiad, felly, i egwyddorion cyflawni gwerth gorau o ran rheoli trysorlys, ac i'r defnydd o dechnegau addas ar gyfer mesur cyflawniad, yng nghyd-destun rheoli risg yn effeithiol.

## 5. ARFERION RHEOLI TRYSORLYS

Mae CIPFA yn argymell y dylai Arferion Rheoli Trysorlys (ARhT) sefydliad gynnwys pa rai bynnag o'r canlynol sydd yn berthnasol i'w bwerau rheoli trysorlys ac i gwmpas ei weithgareddau rheoli trysorlys.

**5.1** Rheoli Risg: bydd y swyddog cyfrifol yn cynllunio, yn gweithredu ac yn monitro'r holl drefniadau ar gyfer canfod a rheoli risg mewn rheoli trysorlys, a bydd yn cyflwyno adroddiad bob blwyddyn o leiaf.

**5.2** Mesur gwerth gorau a chyflawniad: mae gan y sefydliad hwn ymrwymiad i geisio sicrhau gwerth gorau yn ei weithgareddau rheoli trysorlys, ac i ddefnyddio dulliau cyflawniad i ategu'r nod hwnnw, oddi mewn i fframwaith sydd wedi ei ddisgrifio yn ei ddatganiad polisi ynglŷn â rheoli trysorlys.

**5.3** Dod i benderfyniadau a dadansoddi: bydd y sefydliad hwn yn cadw cofnodion llawn o'i benderfyniadau ynglŷn â rheoli trysorlys, ac o'r prosesau a'r arferion a ddefnyddiwyd wrth ddod i'r penderfyniadau hynny, i bwrpas dysgu gwersi'r gorffennol ac er mwyn dangos bod camau rhesymol wedi cael eu cymryd i sicrhau bod yr holl faterion a oedd yn berthnasol i'r penderfyniadau wedi cael ei cymryd i ystyriaeth ar y pryd.

**5.4** Offerynnau, dulliau a thechnegau cymeradwyedig: bydd y sefydliad hwn yn ymgymryd a'i weithgareddau rheoli trysorlys trwy ddefnyddio dim ond yr offerynnau, y dulliau a'r technegau hynny sydd o fewn y terfynau a'r paramedrau sydd wedi eu diffinio yn ARhT1 *Rheoli Risg*.

**5.5** Trefnu a gwahanu cyfrifoldebau, a threfniadau trafodion: mae'r sefydliad hwn yn ei hystyried yn hanfodol, i bwrpas rheolaeth a monitro effeithiol o'i weithgareddau rheoli trysorlys, lleihau'r perygl o dwyll neu gamgymeriad, a cheisio sicrhau'r cyflawniad gorau posibl, fod y gweithgareddau hyn yn cael eu strwythuro a'u rheoli mewn modd cwbl gyfannol, a bod y cyfrifoldebau rheoli trysorlys yn glir bob amser.

**5.6** Gofynion adrodd a threfniadau gwybodaeth i reolwyr: bydd y sefydliad hwn yn sicrhau bod adroddiadau rheolaidd yn cael eu paratoi a'u trafod ynglŷn â gweithrediad ei bolisïau rheoli trysorlys; ynglŷn â goblygiadau newidiadau, yn enwedig rhai cyllidebol, sy'n deillio o ffactorau rheoliadol, economaidd, ffactorau'n ymwneud â'r farchnad a ffactorau eraill sy'n effeithio ar ei weithgareddau rheoli trysorlys; ac ynglŷn â chyflawniad y swyddogaeth rheoli trysorlys.

**5.7** Trefniadau cyllidebu, cyfrifyddu ac archwilio: bydd y swyddog cyfrifol yn paratoi cyllideb flynyddol ar gyfer rheoli trysorlys, a bydd y sefydliad hwn yn ei chymeradwyo, ac yn ei newid o bryd i'w gilydd os bydd angen.

Bydd y sefydliad hwn yn rhoi cyfrif am ei weithgareddau rheoli trysorlys, am y penderfyniadau sydd wedi eu gwneud, ac am y trafodion sydd wedi eu gweithredu, yn unol ag arferion a safonau cyfrifyddu cywir, ac yn unol â'r gofynion statudol a rheoliadol sydd mewn grym ar y pryd.

Bydd y sefydliad hwn yn sicrhau bod ei archwilwyr, a'r rhai sydd â'r cyfrifoldeb am gynnal adolygiadau rheoliadol, yn cael mynediad i'r holl wybodaeth a phapurau sy'n ategu gweithgareddau'r swyddogaeth rheoli trysorlys.

**5.8** Llif arian a rheoli llif arian: bydd yr holl arian sydd yn nwylo'r sefydliad hwn dan reolaeth y swyddog cyfrifol, a bydd yn cael ei gyfansymio i bwrpas rheoli llif arian a buddsoddiant. Bydd blaenamcaniadau llif arian yn cael eu paratoi yn rheolaidd ac yn brydlon.

**5.9** Gwyngalchu arian: mae'r sefydliad hwn yn effro i'r posibilrwydd y gallai ddod yn darged i ymgais i'w gysylltu â thrafodion a oedd yn golygu gwyngalchu arian. Felly, bydd yn cynnal gweithdrefnau ar gyfer gwirio a chofnodi pwy yw gwrthbartïon ac adrodd ynglŷn ag unrhyw amheuon, a bydd yn sicrhau bod staff sy'n gysylltiedig â hyn yn cael eu hyfforddi'n drylwyr.

**5.10** Hyfforddiant a chymwysterau staff: mae'r sefydliad hwn yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod gan yr holl staff sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth rheoli trysorlys y cymwysterau llawn ar gyfer ymgymryd â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd wedi eu dosrannu iddynt. Fe fydd, felly, yn ceisio penodi unigolion sydd yn fedrus ac yn brofiadol, a bydd yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff er mwyn eu galluogi i gael ac i gynnal lefel briodol o arbenigedd, gwybodaeth a medrau.

**5.11** Defnyddio darparwyr gwasanaethau allanol: mae'r sefydliad hwn yn cydnabod gwerth posibl cyflogi darparwyr gwasanaethau allanol rheoli trysorlys er manteisio ar fedrau ac adnoddau arbenigol, a bydd yn cynnal arfarniad llawn o'r costau a'r buddion.

**5.12** Llywodraeth gorfforaethol: mae'r sefydliad hwn wedi ymrwymo i fynd ar drywydd llywodraeth gorfforaethol gywir yn ei holl fusnesau a gwasanaethau, ac i sefydlu'r egwyddorion a'r arferion ar gyfer cyflawni hyn. Felly, bydd y swyddogaeth rheoli trysorlys a'i gweithgareddau'n cael eu cyflawni mewn modd agored ac amlwg, a gyda gonestrwydd, uniondeb ac atebolrwydd.

* * * * *

ATODIAD B

# Arferion Rheoli Trysorlys

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r Côd Ymarfer ar Reoli Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus (2002) yn cynnwys gofyniad i fabwysiadu deuddeg o Arferion Rheoli Trysorlys, yn dibynnu ar ba mor berthnasol ydynt i bwerau rheoli trysorlys yr Awdurdod a hyd a lled gweithgareddau rheoli trysorlys yr Awdurdod.

Mae'r arian sydd yng nghyfrif banc yr Awdurdod Tân yn cael ei grynhoi gydag arian Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac mae Conwy yn ei fuddsoddi ar y farchnad. Caiff arian yr Awdurdod Tân ei gymodi yn dyddiol, a thelir llog ar yr arian ar y raddfa dros nos y mae Conwy'n ei chael, a 0.25% yn ychwanegol. Cyfanswm y llog a enillir bob blwyddyn yw tua £90,000. Pan grëwyd Awdurdod Tân Gogledd Cymru, rhagwelid y byddai'r arian yn fychan gan nad oedd gan yr Awdurdod unrhyw gronfeydd na darpariaethau i greu gwarged mawr. Ar sail hyn, nid fyddai wedi bod yn gost-effeithiol i'r Awdurdod Tân fuddsoddi'n uniongyrchol ar y farchnad.

Gan fod yr arian yn y Ddarpariaeth Bensiynau wedi tyfu, gan greu mwy o arian yn y cyfrif efallai y gallai'r Awdurdod Tân yn y dyfodol ystyried buddsoddi ar ei ran ei hun. Gyda hyn mewn cof bydd yr ARhT amlinellir yn rhai fydd yn cydnabod bod yr Awdurdod yn weithgar yn y farchnad arian ac yn defnyddio'r holl bwerau rhoi benthyg a chael benthyg sydd ganddo.

## 2. ARFERION RHEOLI TRYSORLYS

Gan fod Conwy eisoes wedi mabwysiadu'r Côd ac wedi rhoi'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith, bydd yr ARhT ar gyfer yr Awdurdod Tân yn ddyblygiad o'r rhai a fabwysiadwyd gan Gonwy.

Defnyddiodd Conwy wasanaethau Butlers sef Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y cyngor, i lunio llawlyfr i ymorol am y 12 arfer argymelledig. Ni chafodd y llawlyfr ei atgynhyrchu ar gyfer yr adroddiad hwn gan ei fod yn cynnwys yr holl wybodaeth sefydlog ar gyfer staff rheoli trysorlys, ac felly'n ddogfen eithaf mawr.

Isod, ceir, crynodeb byr o bob arfer rheoli trysorlys ac eglurhad o'i hyd a'i led er mwyn i'r Aelodau eu deall.

### (i) ARhT 1 – Rheoli Risg

Mae'r adran hon yn amlinellu cyfres o risgiau posibl i'r Awdurdod, sydd i'w disgwyl mewn rheoli trysorlys, ac mae'n darparu cyfres o fesurau i fynd i'r afael â'r risgiau hynny. Mae rhai yn cael eu dileu'n gyfan gwbl e.e. risg cyfnewid arian gan nad yw'r Awdurdod yn rhoi benthyg nac yn cael benthyg arian tramor, a risgiau'n ymwneud â'r farchnad gan nad yw'r Awdurdod yn defnyddio dulliau benthyca a all godi a gostwng mewn gwerth.

Gellir lleihau rhai risgiau e.e. gellir lleihau'r risg o hylifedd trwy beidio ag ymrwymo holl arian yr Awdurdod mewn benthyca tymor hir a chael cyfleuster gorddrafft y gellir ei ddefnyddio pe bai angen; gellir lleihau risg cyfraddau llog trwy gyfyngu ar ei fenthyciadau cyfraddau newidiol, gan fenthyca am gyfnod byr mewn cyfnodau o gyfraddau uwch a chymryd mantais o gyfraddau isel trwy fenthyca tymor hir.

**(ii) ARhT 2 – Gwerth Gorau**

Sonnir am Werth Gorau a Rheoli'r Trysorlys yn Atodiad A Adran 4.3.

**(iii) ARhT 3 – Dadansoddiad o Wneud Penderfyniadau**

Bydd yr Awdurdod yn cadw cofnod o'i ddeliadau a'r rhesymau am ei benderfyniadau. Mae'r rhain yn amrywio o adroddiadau lefel uchel i'r Aelodau ar strategaeth flynyddol i'r deliadau unigol benthyca tymor hir.

**(iv) ARhT 4 – Ffynonellau Cyllid a Gymeradwywyd**

Mae'n sicrhau bod yr Awdurdod yn defnyddio'n unig ddulliau benthyca sy'n diogelu ased ariannol yr Awdurdod, a hynny'n unig i lefelau sydd wedi'u cymeradwyo gan yr Awdurdod. Yn fras, mae hyn yn cyfyngu yr Awdurdod i ddelio ar y farchnad arian (yn bennaf i awdurdodau lleol eraill a chymdeithasau adeiladu), cronfeydd marchnad ariannol, benthyca uniongyrchol i fanciau ac i'r Swyddfa Rheoli Dyledion.

**(v) ARhT 5 – Trefnu, egluro a neilltuo cyfrifoldebau, a threfniadau delio.**

Mae'r adran hon yn amlinellu dyletswyddau penodol y staff dan sylw. Yn ei hanfod, mae'r Trysorydd yn cynnal trosolwg gyda thrafodaethau rheolaidd i sicrhau bod yr adroddiad strategol a gymeradwywyd yn gynnar yn y flwyddyn ariannol yn cael ei ddilyn. Mae Cyfrifydd yr Awdurdod Tân yn gyfrifol am reolaeth o ddydd i ddydd ac yn trefnu pob benthyciad tymor hir yn dilyn sêl bendith y Trysorydd. Mae cyfrifydd yn gweithredu fel deliwr ar sail ddyddiol; gyda staff yr adain yn ei gynnal, ac mae'r cynorthwywyr cyfrifiaeth yn gweithredu fel staff cefnogol sy'n delio gyda gohebiaeth. Mae'r holl ddyletswyddau wedi eu cynnwys yn y disgrifiadau swyddi ac maent wedi'u neilltuo fel nad yw'r staff delio'n anfon gohebiaeth allan a'r staff cefnogol ddim yn delio.

Manylir yn llawn ar drefniadau delio, gan gynnwys y broceriaid y dylid eu defnyddio, y partïon eraill ac unrhyw gyfyngiadau, a'r wybodaeth y mae'n rhaid ei throsglwyddo ac i bwy.

**(vi) ARhT 6 – Adrodd**

Bydd y Trysorydd yn llunio'r adroddiadau a ganlyn ar gyfer yr Aelodau:

- Adroddiad blynyddol ar y strategaeth a'r cynllun i'w dilyn yn y flwyddyn i ddod.
- Adroddiad blynyddol ar berfformiad y swyddogaeth Rheoli Trysorlys a'r deliadau a gyflawnwyd yn y flwyddyn a fu.
- Caiff gweithgareddau benthyca'r swyddogaeth Rheoli Trysorlys eu diweddaru i'r Aelodau yn ystod y flwyddyn.

**(vii) ARhT 7 – Trefniadau Cyllidebu, Cyfrifyddu ac Archwilio**

Bydd Cyfrifydd yr Awdurdod Tân yn monitro'r holl incwm a'r holl wariant ar gyfer Rheolaeth y Trysorlys ac yn adrodd ynghylch unrhyw amrywiadau i'r gyllideb. Caiff hyn ei gynnwys fel rhan o'r "Adroddiad Alldro" a gyflwynir i'r Pwyllgor bob chwarter.

Bydd gan Archwilwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am adolygiad rheoleiddiol fynediad at yr holl wybodaeth a'r holl bapurau i gefnogi gweithgareddau'r swyddogaeth Rheoli Trysorlys, fel sydd angen ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau'n gywir.

**(viii) ARhT 8 – Rheoli Arian a Llif Arian**

Gellir pennu sefyllfa ariannol gyffredinol ar gyfer pob diwrnod a gwneud penderfyniadau synhwyrol gyda gwybodaeth lawn am sefyllfa ariannol gros yr Awdurdod.

**(ix) ARhT 9 – Gwyngalchu Arian**

Mae hyn yn risg parhaus a cheisir gwarchod rhagddo trwy gael rhestr o bartïon eraill cymeradwy a thrwy wirio pwy yw'r holl bartïon eraill i sicrhau ei fod yn gywir cyn rhyddhau arian.

**(x) ARhT 10 – Hyfforddi Staff**

Mae'n rhestru'r gofyniad i benodi staff sydd â'r cymwysterau priodol ac i sicrhau bod hyfforddiant digonol ar gael trwy amrywiol ddulliau i sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf yn eu meddiant.

**(xi) ARhT 11 – Defnyddio darparwyr gwasanaeth allanol**

Mae Conwy yn defnyddio tri math o ddarparwyr gwasanaeth allanol ac fel rhan o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth mae'r gwasanaethau allanol ar gael i'r Awdurdod Tân. Mae ganddo gytundeb gyda banc clirio i ddarparu'r gwasanaethau bancio arferol, sy'n ofynnol i unrhyw sefydliad mawr; mae ganddo restr o froceriaid sy'n delio ym marchnad arian Llundain ac mae ganddo ymgynghorwr rheolaeth drysorlys. Mae'r banc a'r ymgynghorwr rheolaeth trysorlys yn agored i adolygiad gyfnodol o'r farchnad.

**(xii) ARhT 12 – Rheolaeth Gorfforaethol**

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i reolaeth gorfforaethol briodol ac mae cadw at y Côd hwn yn gymorth i gael tryloywder agored, gonestrwydd, didwylledd ac atebolrwydd fel sy'n ofynnol gan reolaeth gorfforaethol